OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2023 No. 281

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) (Diwygio) 2023

Diwygiadau i Reoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Trefniadau Pryderon, Cwynion ac Iawn) (Cymru) 2011(**1**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1)—

(a) yn y diffiniad o "corff GIG Cymru"—

(i) hepgorer y "neu" ar ôl is-baragraff (a);

(ii) ar ôl is-baragraff (b) mewnosoder—

"neu

(c) Awdurdod Iechyd Arbennig;";

(b) yn y lleoedd priodol mewnosoder—

"ystyr "Awdurdod Iechyd Arbennig" ("*Special Health Authority*") yw corff a sefydlwyd gan orchymyn a wnaed o dan adran 22 o Ddeddf 2006; ond nid yw'n cynnwys unrhyw Awdurdod Iechyd Arbennig trawsffiniol (o fewn yr ystyr a roddir i "cross-border Special Health Authority" yn adran 8A(5) o Ddeddf 2006);

mae i "cynrychiolydd" ("*representative*") yr ystyr a roddir iddo yn rheoliad 12(2);.".

(3) Yn rheoliad 3—

(a) daw'r ddarpariaeth bresennol yn baragraff (1);

(b) ar ôl y paragraff hwnnw mewnosoder—

"(2) Wrth gydymffurfio â'i rwymedigaethau o dan y Rheoliadau hyn, ni chaiff corff cyfrifol ddatgelu data personol i berson nad yw'n destun y data, oni bai bod y person hwnnw yn gynrychiolydd i destun y data.

(3) Ym mharagraff (2), mae i "testun y data" a "data personol" yr un ystyr â "data subject" a "personal data" yn Neddf Diogelu Data 2018 (gweler adran 3 o'r Ddeddf honno)."

(4) Yn rheoliad 12—

(a) ym mharagraff (1)(a) yn lle "person sy'n cael, neu sydd wedi cael, gwasanaethau gan gorff cyfrifol" rhodder "claf";

(b) ym mharagraff (9), ar ôl "iawn" mewnosoder ", neu at glaf,".

(5) Yn rheoliad 14(1)—

(a) yn is-baragraff (c), ar ôl "Cymru" mewnosoder ", oni bai bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi argymell bod y corff GIG Cymru yn cynnig ffurf o iawn o dan Ran 6 o'r Rheoliadau hyn, ac yn yr achos hwnnw, dim ond at ddiben penderfynu a oes

(**1**) O.S. 2011/704 (Cy. 108).

atebolrwydd cymwys yn bodoli neu a all fodoli, ac i gynnig ffurf o iawn yn unol ag argymhellion Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, y caiff y corff GIG Cymru ymgymryd ag ymchwiliad pellach i'r pryder o dan y Rheoliadau hyn;";

(b) yn is-baragraff (dd) hepgorer y geiriau o'r cyfeiriad cyntaf at "a" hyd at "ac";

(c) yn is-baragraff (ff), ar ôl "sifil" mewnosoder "(gan gynnwys y cyfnod cyn gweithredu ar gyfer yr achos hwnnw)";

(d) hepgorer y "neu" ar ôl is-baragraff (ff);

(e) ar ôl is-baragraff (g) mewnosoder—

"; neu

(ng) pan mai Addysg a Gwella Iechyd Cymru yw'r corff cyfrifol, pryder nad yw'n ymwneud â darparu gofal iechyd gan y corff hwnnw."

(6) Yn rheoliad 25(2), ar y dechrau mewnosoder "Yn ddarostyngedig i reoliad 29(2),".